**Safonau Iaith Gymraeg / Welsh Language Standards**
**Cynllun Cydymffurfio / Compliance Plan 2023/4**

## 1. Goruchwyliaeth a Llywodraethu

Mae goruchwyliaeth a llywodraethu mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn cael eu rheoli drwy dair llinell:

**(a) Yn allanol:**
- Archwilio Mewnol
- Ymholiadau ac adroddiadau Comisiynydd y Gymraeg

**(b) Llywodraethu a Phwyllgorau**
- Dangosydd Perfformiad Allweddol 5 PCYDDS (Yr Iaith Gymraeg: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg)
- Adrodd ar gynnydd mewn perthynas â chydymffurfio
- Diweddariadau i is-bwyllgorau'r Gymraeg, Pwyllgor y Gymraeg (o dan gadeiryddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor) a'r Pwyllgor Academaidd (is-bwyllgor o'r Cyngor).

**(c) Gweithredol:**
- Ymarferion Hunan-Asesu blynyddol gan adrannau ac athrofeydd
- Gwiriadau ar hap gan aelodau o is-bwyllgorau iaith Gymraeg yr athrofeydd a'r gwasanaethau proffesiynol.
- Rheolwyr sy'n gyfrifol am hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg a sicrhau bod sgiliau digonol gyda'r staff ar gyfer gweithredu'r Safonau.
- Gofynnir i bob rheolwr lenwi ffurflen hunan-asesu ar gyfer eu hadran. Pwrpas yr hunan asesiad yw atgoffa rheolwyr o ofynion y Safonau Iaith a rhoi cyfle iddynt osod gwaelodlin ar gyfer yr adrannau. Bydd y ffurflen yn cael eu hanfon eto er mwyn gallu adnabod cynnydd ac arfer dda.
- Bydd y Brifysgol yn adrodd ar yr holl ddata yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r pwyllgorau priodol yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ac yn goruchwylio cydymffurfiaeth.
- Rheoli cwynion

## 2. Cyflenwi Gwasanaethau / Service Delivery

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
|---|---|
| **Gohebiaeth** (1,2,3,4,5,6,7)<br><br>**Galwadau Ffôn** (8,9,11,12,13,14,15,16,17,19,20,21,22, 24, 24A, 26, 26A, 27, 27A, 27CH, 29, 29A) | Gwneir staff yn ymwybodol o'r gofynion trwy'r e-fodiwl ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gorfodol; a thrwy ymgysylltu, hyfforddiant a chanllawiau.<br><br>Llofnodion e-bost safonol i'w defnyddio gan staff.<br><br>Papur pennawd safonol i'w ddefnyddio gan staff.<br><br>Tudalennau adnoddau ar y fewnrwyd yn cynnwys canllawiau:<br>• Pam defnyddio'r Gymraeg<br>• Ar y ffôn<br>• Mewn gohebiaeth (ar bapur ac yn electronig)<br>• Dylunio, Cyhoeddi ac Arwyddion<br>• Trefnu a chynnal cyfarfodydd |
| **Cyfarfodydd** (24,24A,26,26A, 27, 27A, 27CH, 29, 29A, 30, 31, 32, 33, 34)<br><br>**Digwyddiadau cyhoeddus, darlithoedd cyhoeddus a seremonïau graddio a gwobrwyo** (35, 36, 40, 40A, 41, 42) | Tudalennau adnoddau ar y fewnrwyd yn cynnwys canllawiau:<br>• Pam defnyddio'r Gymraeg<br>• Dylunio, Cyhoeddi ac Arwyddion<br>• Trefnu a chynnal cyfarfodydd<br><br>Mae Rheolwyr adrannau perthnasol megis y Gofrestrfa, Marchnata a Chyfathrebu yn ymwybodol o'r Safonau sy'n berthnasol wrth drefnu digwyddiadau cyhoeddus gan gynnwys seremonïau graddio. |
| **Cyhoeddusrwydd, hysbysebu ac arddangos deunydd** (37, 38)<br><br>**Dogfennau a ffurflenni** (43, 51, 52, 53, 53A, 53B, 54)<br><br>**Arwyddion a arddangosir gan gorff, corff yn gwneud hysbysiadau a systemau annerch cyhoeddus** (65, 66, 67, 73, 74, 91) | Mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllaw 'Dylunio, Cyhoeddi ac Arwyddion' sy'n egluro beth sydd angen i staff wneud i gydymffurfio â'r safonau hyn.<br><br>Lleolir eitemau Iaith Gwaith yn y derbynfeydd. Anogir staff sy'n siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg i wisgo cortynnau gwddf er mwyn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.<br><br>Mae is-bwyllgorau'r Gymraeg (y tair athrofa ac un gwasanaethau proffesiynol) yn darparu rhwydwaith ar draws y sefydliad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, rhannu arfer da a chynnal trosolwg o gydymffurfiaeth yn eu hadrannau unigol. Maent yn |

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
|---|---|
| | cynorthwyo gyda chasglu data yn ogystal â dosbarthu dogfennau a rhannu gwybodaeth a chefnogi ymgyrchoedd.<br><br>Darperir hyfforddiant wedi'i deilwra i staff derbynfeydd i wella dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r Safonau.<br><br>Mae Uned Gyfieithu'r Brifysgol yn cyfieithu gwaith ysgrifenedig o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |
| **Gwefannau, gwasanaethau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol** (55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63) | Mae adrannau sy'n gyfrifol am reoli a dylunio gwefannau yn ymwybodol o'r Safonau perthnasol ac yn gweithio'[n agos gyda chydweithwyr yng Nghanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a Swyddog Safonau'r Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i adolygiad llawn o'r wefan. Bydd hyn yn cynnwys creu a datblygu gwefan, ffurflenni, tudalennau cartref, blolgiau gan gydymffurfio'n llawn â'r Safonau. Mae'r Brifysgol yn cyflwyno system CRM ac mae'r broses graffu yn cynnwys cydymffurfio â'r Safonau fel maen prawf. |
| **Ardaloedd derbynfa** (68, 71, 72) | Mae staff y dderbynfa yn cael hyfforddiant ar ymateb i ymwelwyr yn nerbynfeydd y Brifysgol yn ogystal ag ateb y ffôn. Mae canllawiau'n atgyfnerthu'r hyfforddiant ac fe'u cyhoeddir ar y fewnrwyd. |
| **Dyfarnu grantiau neu darparu cymorth ariannol** (75, 76, 76A, 78, 79)<br><br>**Corff yn dyfarnu contractau** (80, 81, 81A, 83, 84)<br><br>**Peiriannau hunanwasanaeth** (64) | Adlewyrchir gofynion y Safonau yn Rheoliadau Ariannol y Brifysgol mewn perthynas â gwariant di-dâl.<br><br>Mae'r polisi caffael yn sicrhau y rhoddir sylw dyledus i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. |
| **Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg**<br><br>**Hunaniaeth gorfforaethol** (87)<br><br>**Cyfleodd dysgu a gynigir gan gorff** (88) | Defnyddir y Bwletin I Staff a'r cyfryngau cymdeithasol I roi cyhoeddusrwydd i waith a digwyddiadau'r Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Yr Egin ac Yr Atom o fewn y Brifysgol. Mae Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau a chyflwyniadau mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith a hyder. |

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
|---|---|
| **Cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg a dyrannu tiwtor personol** (90, 90A, 93) | Gofynnir i holl staff y Brifysgol i gwblhau'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'r e-fodiwl yn gwrs gorfodol i'r holl staff ac yn rhan o gyrsiau anwytho swyddogion newydd. Rhoddir gwybodaeth am gyd-destun hanesyddol y Gymraeg, y manteision o ddwyieithrwydd ac esboniad beth yw'r Safonau, a'r angen i gydymffurfio wrth ddilyn y Canllawiau. Mae'r e-fodiwl yn cyfeirio staff at y Canllawiau ac yn gofyn iddynt eu darllen.<br><br>Cynigir cyrsiau i staff ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Cynigir cyrsiau hunan-astudio ar-lein gyda chefnogaeth tiwtor ar y cyd â rhai sy'n cael eu haddysgu gan diwtor ar-lein gyda gwaith cyfeiriol. Ariennir y cyrsiau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu ymgyrchoedd i annog staff a myfyrwyr i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg, er enghraifft, creu fideos o fyfyrwyr yn amlinellu eu hawliau a'u hanghenion a chreu fideos o staff yn siarad Cymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau sydd gan y staff i ddiwallu hawliau myfyrwyr.<br><br>Mae hanes a diwylliant y sefydliad yn bwysig iawn i'r Brifysgol ynghyd â'i hunaniaeth gorfforaethol dwyieithog. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Strategol Sefydliadol (blaenoriaeth 4) ac yn Fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Brifysgol (DPA 5). Bydd y Brifysgol ar bob cyfle yn hyrwyddo ei hunaniaeth gorfforaethol dwyieithog ac mae'r tîm dylunio yn ymwybodol o'r angen hwn ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau.<br><br>Wrth i fyfyrwyr gofrestru, byddant yn gallu nodi a ydynt am gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg. |
| **Llety myfyrwyr** (92, 92A) | Mae'r tudalennau llety ar ein gwefan yn nodi y gall myfyrwyr wneud cais am lety gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg, ac rydym yn cynnwys cwestiwn ar y ffurflen gais am lety. |

## 3. Llunio Polisi / Policy Making

| Safonau | Hyrwyddo a hwylusi |
|---|---|
| **Effaith penderfyniadau polisi a wneir gan gorff** (94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104) | Cyn cyflwyno polisi newydd i'w gymeradwyo, rhaid i'r rheolwr priodol gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg PCYDDS.<br><br>Mae'r Brifysgol yn adolygu ac yn cryfhau ei hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg yn unol ag arfer gorau ac yn rhoi canllawiau i staff ar sut i'w gwblhau.<br><br>Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddarparu hyfforddiant a chanllawiau manylach sy'n benodol i asesu'r effaith ar y Gymraeg. |

## 4. Gweithredu / Operational

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
|---|---|
| **Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y corff** (105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118) | Cyhoeddir Polisi Defnydd Mewnol yr iaith Gymraeg ar fewnrwyd y Brifysgol. Hyrwyddwyd y polisi ymhlith staff wrth dynnu sylw ato yn y Bwletin i Staff wythnosol.<br><br>Pan dderbynnir cwynion gan staff yn Gymraeg, cynhelir y broses ac unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd yn dilyn cwyn neu fel rhan o drefn ddisgyblu naill ai yn Gymraeg neu bydd gwasanaeth Cyfieithu ar y pryd ar gael. |
| **Cwynion a Disgyblu** (119, 119A, 121, 122, 123, 123A, 125, 126) | Bydd y ddau bolisi (Gweithdrefn Disgyblu a Chwyno) yn cyfeirio at hawliau staff i dderbyn gwybodaeth a dilyn prosesau yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg. |
| **Technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd** (127, 128, 131, 132, 133) | Mae'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar Moodle ac mae'n orfodol i bob aelod o staff. Mae hefyd yn rhan o broses anwytho ar gyfer staff newydd.<br><br>Mae copi o Cysgliad ar gael ar bob cyfrifiadur gan gynnwys cyfrifiaduron staff a chyfrifiaduron ystafelloedd TG sydd ar gael i fyfyrwyr eu defnyddio. |

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
| --- | --- |
| | Cyfeirir at dechnoleg a systemau ychwanegol ar dudalen adnoddau y fewnrwyd. |
| **Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu** (134, 135, 136, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 144A) | Cedwir cofnod o sgiliau iaith pob aelod o staff ar system Adnoddau Dynol y Brifysgol (Resourcelink). Mae'r Brifysgol yn annog staff i adolygu a diweddaru eu cofnodion yn rheolaidd trwy'r system ar-lein.<br><br>Mae'r Brifysgol wedi creu polisi defnydd mewnol er mwyn bod staff yn ymwybodol beth yw eu hawliau o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a sut bydd y Brifysgol yn mynd ati i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn cynnig cyrsiau Cymraeg trwy nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd cyrsiau ar lefel Mynediad, Sylfaen, a Chanolradd / Uwch.<br><br>Cynhelir digwyddiadau ar draws campysau Cymru gyfan I annog staff I siarad Cymraeg gan gynnwys sesiynau coffi. |
| **Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio** (145, 145A, 146, 146A, 146B, 148, 149) | Mae'r Brifysgol yn darparu cefnogaeth ar gyfer recriwtio yng nghyd-destun y Gymraeg, darperir disgrifiadau o'r lefelau i reolwyr fel rhan o becyn recriwtio a phenodi.<br><br>Mae'n rhaid i bob rheolwr asesu gofynion yr Iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd cyn gwneud ymholiad, a chofnodi canlyniad yr asesiad ar y system Webrecruit ac ar y Manyleb Person. Bydd hyn yn cael ei gymeradwyo gan Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol, a lle bo angen, bydd trafodaeth bellach yn digwydd.<br><br>Bydd pob swydd i weithio ar gampysau yng Nghymru yn cael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg naill ai yn hanfodol, yn ddymunol, bod angen dysgu'r Gymraeg i gyflawni'r swydd.<br><br>Os yw ymgeisydd yn ymgeisio am swydd trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cyfweliad, cytundeb cyflogaeth ac unrhyw ohebu yn dilyn hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
| --- | --- |
| | Mae Adnoddau Dynol yn defnyddio system ar-lein i recriwtio. Mae'r system yn ddwyieithog a gall ymgeiswyr ddewis llanw'r ffurflen Gymraeg.<br><br>Anogir staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynnau neu cortynnau gwddf iaith gwaith. |
| **Arwyddion a arddangosir, cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff** (150, 151, 152, 153) | Cyhoeddwyd Canllawiau at sylw staff sy'n cyfeirio at y Safonau hyn yng nghanllaw 'Dylunio, Cyhoeddi a Gosod Arwyddion'. |

## 5. Cadw Cofnodion / Record Keeping

| Safonau | Hyrwyddo a hwyluso |
| --- | --- |
| **Cadw cofnodion** (154, 155, 156, 157, 158, 159, 161, 162) | Mae'r Brifysgol yn cadw cofnod o ddata megis cwynion, sgiliau iaith Gymraeg y staff, nifer a chanran o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynhaliwyd yn Gymraeg, a swyddi a hysbysebwyd ynghyd â'u gofynion sgiliau Cymraeg.<br><br>Defnyddir y cofnodion hyn ar gyfer adroddiadau, archwiliadau mewnol ac ymholiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. |

## 6. Materion Atodol / Supplementary Matters

| How do we intend to comply | Hyrwyddo a Hwyluso |
|---|---|
| **Cyhoeddusrwydd i'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion** (163, 169, 175, 181)<br><br>**Cyhoeddi gweithdrefn gwyno** (164, 170, 176) ynghyd â **dogfen sy'n dangos sut rydym yn bwriadu cydymffurfio** (163, 173, 179),<br><br>**Hybu a threfniadau goruchwylio** (165, 171, 177) Cyhoeddir dogfen ar wefan y Brifysgol.<br><br>**Llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol** (166, 172, 178)<br><br>**Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg** (168, 174, 180, 182) | Bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'r Safonau. Mae'n cyhoeddi ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddogfennau ar wefan a mewnrwyd y Brifysgol, gan gynnwys y weithdrefn gwyno, gwybodaeth am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a llywodraethu.<br><br>Mae'r cynllun cydymffurfio hwn yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â bodloni'r Safonau a throsolwg sefydliadol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol bob mis Ionawr.<br><br>Mae'r Brifysgol yn gweithio drwy gydol y flwyddyn gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ymateb i ymholiadau, ceisiadau am wybodaeth ac asesiad o gydymffurfiaeth. |